# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 3

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

## PENNOD 4

CASGLU A RHEOLI'R DRETH

*Cyfrifo treth*

### 41 Y dreth sydd i'w chodi mewn cysylltiad â chyfnod cyfrifyddu

(1) Mae'r dreth sydd i'w chodi ar warediad trethadwy a wneir ar safle tirlenwi awdurdodedig i'w chodi mewn cysylltiad â'r cyfnod cyfrifyddu y gwneir y gwarediad ynddo.

(2) Ond os yw'r person sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy ar y safle yn dyroddi anfoneb dirlenwi mewn cysylltiad â'r gwarediad o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y gwneir y gwarediad, mae swm y dreth sydd i'w godi ar y gwarediad i'w godi mewn cysylltiad â'r cyfnod cyfrifyddu y dyroddir yr anfoneb ynddo (yn hytrach na'r cyfnod cyfrifyddu y gwneir y gwarediad ynddo).

(3) Nid yw is-adran (2) yn gymwys i'r gwarediad os yw'r person wedi rhoi hysbysiad i ACC, cyn dyroddi'r anfoneb dirlenwi, nad yw'r person yn dymuno manteisio arni.

(4) Caiff y person amrywio'r hysbysiad, neu ei dynnu'n ôl, drwy roi hysbysiad pellach i ACC.

(5) Caiff person sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy, neu sy'n bwriadu gwneud hynny, wneud cais ysgrifenedig i ACC am gymhwyso is-adran (2)—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2018.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 41. (See end of Document for details)*

(a) i'r holl warediadau trethadwy a wneir ar safle tirlenwi awdurdodedig y mae'r person yn cyflawni gweithrediadau trethadwy arno, neu
(b) i ddisgrifiad o warediadau trethadwy a bennir yn y cais,

fel pe bai'r cyfeiriad at gyfnod o 14 o ddiwrnodau yn gyfeiriad at gyfnod hwy.

(6) Rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r person am ei benderfyniad ar y cais; ac os yw ACC yn caniatáu'r cais, rhaid i'r hysbysiad bennu'r cyfnod hwy a'r gwarediadau trethadwy y mae'r cyfnod hwy i'w gymhwyso mewn perthynas â hwy.

(7) Caiff ACC amrywio'r hysbysiad, neu ei dynnu'n ôl, drwy ddyroddi hysbysiad pellach i'r person.

(8) Yn yr adran hon, ystyr "anfoneb dirlenwi" yw anfoneb—
(a) a ddyroddir mewn cysylltiad â gwarediad trethadwy, a
(b) sy'n cynnwys yr wybodaeth a bennir yn Atodlen 3.

(9) Caiff rheoliadau ddiwygio Atodlen 3.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 41 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**
**I2** A. 41(1)-(8) mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**
**I3** A. 41(9) mewn grym ar 18.10.2017 gan O.S. 2017/955, **ergl. 2(d)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2018.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 41.